Trivallis.

# Strategaeth Gyllid:

## 2024 - 2029



www.trivallis.co.uk

# Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd ein fframwaith ariannol yn cefnogi'r busnes ehangach o gyflawni'r fframwaith strategol a bydd yn amlinellu'r rheolau sylfaenol y byddwn yn eu mabwysiadu i sicrhau bod gan Trivallis gryfder ariannol a chynaliadwyedd hirdymor.

# Gweledigaeth

Darparu cynaliadwyedd ariannol hirdymor drwy arweinyddiaeth ariannol arloesol a rhagweithiol sy'n cysoni'r polisi ariannol, gan gefnogi a galluogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol.



# Y sefyllfa bresennol

Mae ein sefyllfa ariannol yn gryf a'n mantolen yn iach. Mae gennym sgôr credyd mewnol uchel ac yn 2024 aethom ati i ail-ariannu, gan ddangos hyder benthyg sylweddol. Mae ein rhenti'n isel o'u cymharu â gweddill sector Tai Cymru ac yn seiliedig ar enillion lleol a fforddiadwyedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae % ein gorswm gweithredu wedi amrywio yn sgil effaith cyfyngiadau COVID ar y rhaglen arfaethedig, ond mae'r elfen cynhyrchu arian a'n sefyllfa gyffredinol wedi parhau'n gyson.

Mae ein cynllun busnes 30 mlynedd yn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y cynllun corfforaethol gan gynnwys y gallu i gyflawni safonau ynni C EPC erbyn 2030, a 3,604 o gartrefi newydd yn y 30 mlynedd nesaf. Mae hefyd yn cynnwys dod â chyllid llenwi bwlch Llywodraeth Cymru i ben yn 2036/37. Mae tyfu'r busnes yn organig a rheoli costau llog yn y blynyddoedd blaenorol yn rhan hanfodol o'n gwaith cynllunio dros y 10–15 mlynedd nesaf.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud

1. Byddwn yn tyfu ein gorswm gweithredu dros amser a byddwn yn parhau i adrodd ar enillion cyn llog, treth, dibrisiant, amorteiddio, atgyweiriadau mawr (EBITDA MRI) sydd wedi'u cynnwys yn fewnol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cynhyrchu digon o arian parod a chronfeydd wrth gefn i ariannu darpariaeth gwasanaethau a buddsoddiadau yn ein cartrefi presennol a chartrefi newydd yn y dyfodol.

2. Byddwn yn gweithredu o fewn set glir o reolau ariannol euraid a mecanweithiau adrodd i sicrhau bod gennym y gallu i wynebu unrhyw heriau ariannol annisgwyl.

3. Byddwn yn tyfu ein busnes yn organig drwy ddarparu cartrefi newydd i wrthbwyso colli'r cyllid llenwi bwlch o 2037 ymlaen.

4. Byddwn yn gwneud y gorau o'n hasedau i gyflawni ein hamcanion corfforaethol ac yn creu gallu benthyca ychwanegol lle bo hynny'n bosibl.

5. Byddwn yn datblygu ein strwythur Grwpiau ac yn cyflwyno is-gwmnïau newydd ar yr amod bod ganddyn nhw bwrpas diffiniedig, gan osgoi dyblygu a sicrhau tryloywder. Byddant yn cael eu llywodraethu gan gytundeb rhwng y grwpiau.

6. Byddwn yn cymryd rhan mewn cyd-fentrau a phartneriaethau ariannol lle mae risg a gwobr yn cael eu deall yn glir, a'r canlyniad yn ategu amcanion Trivallis.

7. Byddwn yn sicrhau y cydymffurfir â'n polisïau a'n gweithdrefnau ariannol, gan sicrhau rheolaeth fewnol gadarn a defnydd effeithlon o adnoddau.

8. Byddwn yn sicrhau bod paramedrau hyfywedd ein datblygiadau newydd yn ychwanegu gallu ariannol i'r cynllun busnes hirdymor.

9. Byddwn yn darparu adroddiadau amserol a chywir a fydd yn gwrthsefyll craffu allanol, gan ddarparu gwybodaeth ddibynadwy ac ystyrlon i arweinwyr a rheolwyr. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol trwy barhau i fuddsoddi mewn systemau integredig ac adolygiadau o brosesau.

10. Byddwn yn sicrhau bod gennym asedau parod o safbwynt diogelwch i gefnogi anghenion cyllido yn y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn sicrhau'r gwerth mwyaf.

11. Byddwn yn meincnodi ein perfformiad ariannol yn rheolaidd, er mwyn deall sut rydyn ni'n wahanol i unrhyw dueddiadau yn y sector fel ein bod yn ymwybodol o effaith ariannol ein penderfyniadau buddsoddi.

12. Rydyn ni'n cydnabod yr heriau ariannol sy'n gysylltiedig ag ariannu datgarboneiddio ein cartrefi a chyflawni gradd ynni EPC A ar gyfer ein cartrefi. Byddwn yn ymchwilio a, lle bo'n briodol, yn cymryd rhan mewn atebion ariannu arloesol a fydd yn sicrhau gwell effeithlonrwydd ynni gyda budd ariannol clir i denantiaid ac i Trivallis.

13. Bydd gennym ddull clir o ddangos a darparu Gwerth am Arian i'n holl randdeiliaid, gan barhau i ymgorffori egwyddorion effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwerth am arian yn y ffordd rydyn ni'n gweithio ac yn darparu gwasanaethau.

14. Bydd ein dull caffael yn arloesol ac yn canolbwyntio ar atebion, ond hefyd yn gadarn ac yn dryloyw, wedi'i ddarparu i gefnogi anghenion y sefydliad.

# Egwyddorion allweddol

Dyma'r rheolau a'r canllawiau sylfaenol y byddwn yn eu harddel, a byddant yn gweithredu fel sylfaen i'r strategaeth:



- Bydd ein cynllun busnes hirdymor yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio set o ragdybiaethau economaidd rhesymol, a chyflawni'r cynllun corfforaethol a gwerth am arian fydd ei brif gyflawniadau.
- Byddwn yn cynnal prawf straen rheolaidd ar ein cynllun busnes gan ei wthio i'w eithaf, yn erbyn cyfres o senarios, er mwyn deall ei allu yn llawn a pha fesurau lliniaru fyddai eu hangen i sicrhau hyfywedd parhaus.
- Bydd ein polisi rhenti a thâl gwasanaeth yn gysylltiedig ag enillion lleol, gyda ffordiadwyedd yn gonglfaen iddo, a byddwn yn sicrhau ein bod yn cynhyrchu digon o incwm i gynnal buddsoddiad yn y dyfodol o safbwynt darparu gwasanaethau ac ansawdd cartrefi.
- Wrth godi cyllid newydd, ein nod yw rhagori ar ragdybiaethau ein cynllun busnes ac nid y marchnadoedd ariannol. Bydd ein gweithgarwch Rheoli ar gyfer y Trysorlys yn cael ei reoli gan set glir o reolau polisi. Bydd strategaeth tymor byr y Trysorlys yn cael ei chymeradwyo o bryd i'w gilydd gan y Pwyllgor Cyllid pan fydd angen cyllid newydd neu pan fyddwn yn ailstrwythuro cyfleusterau presennol. Cefnogir hyn gan gynghorwyr allanol er mwyn sicrhau rheolaeth gadarn a gwerth am arian.
- Bydd gan Trivallis y sgiliau a'r profiad priodol i sicrhau bod y safonau llywodraethu ariannol uchaf yn cael eu cynnal.
- Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd, Uwch Arweinwyr a phob deiliad cyllideb i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth ariannol, gan sicrhau rheolaeth effeithiol o faterion ariannol allweddol ar draws y sefydliad.

# Targedau strategol / rheolau aur

## Beth sydd ei angen arnom ni:

Byddwn yn gweithio o fewn y canllawiau hyn i ddiogelu'r busnes yn y tymor canolig i'r hirdymor, gan sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y blynyddoedd cynnar i reoli costau llog ac felly'r sicrwydd llog yn y blynyddoedd diweddarach h.y. sicrhau nad ydym ni'n benthyca gormod yn y blynyddoedd cynnar. Byddwn yn sicrhau bod pob datblygiad yn ychwanegu gallu ariannol i'r busnes ac nad yw'n ei leihau. Pan fyddwn yn gwneud buddsoddiadau cyfalaf mewn prosiectau, ein nod fydd creu gallu ariannol ychwanegol. Bydd buddsoddiadau mewn asedau sy'n bodoli'n barod yn creu hirhoedledd yn oes yr asedau.



# Rheolau aur arfaethedig:

**Gorswm gweithredu dros 15%**

**Isafswm o 18 mis o hylifedd**

**Sicrwydd llog (EBITDA MRI):**

- Rhwng 2024–25 – rhoi'r gorau i gyllid cau'r bwlch yn 2026/37 – ar gyfartaledd dros 200%, a asesir yn flynyddol, gydag isafswm o 120% mewn unrhyw flwyddyn benodol.
- O 2036–37 ymlaen – cyfartaledd treigl 5 mlynedd o 120% gydag isafswm o 110% mewn unrhyw flwyddyn benodol.

**Gerio 50% (costau hanesyddol (gan gynnwys Gwaith ar y Gweill (WIP)) i ddyled net.**

**Cyllid o fewn y grŵp wedi'i gapio ar £20 miliwn.**

**Sgôr credyd mewnol sy'n cyfateb i A2 gan ddefnyddio graddfa sgôr credyd Moody.** Bydd hyn yn cael ei brofi'n annibynnol bob dwy flynedd o leiaf gan ein cynghorwyr annibynnol o'r Trysorlys ar ôl diweddaru'r cynllun busnes.

**Rhaglen datblygu gymeradwy flynyddol sy'n ychwanegu gallu ariannol i'r sefydliad.**

**Llythyr rheoli archwilio allanol glân**

Bydd y rheolau aur uchod yn cael eu hadolygu fel rhan o broses strategaeth flynyddol y trysorlys i asesu eu haddasrwydd.



# Risgiau

Cynhelir profion straen rheolaidd ar ein cynllun busnes er mwyn nodi'r risgiau ariannol allweddol sy'n cael yr effaith fwyaf. Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo strategaethau lliniaru fel rhan o'r prawf straen.

Rydyn ni'n gweithredu cofrestr risg ddynamig ac mae effaith ariannol yn agwedd allweddol ar asesu risg. Bydd risgiau ariannol yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd i sicrhau nad yw eu lliniaru yn cyfyngu ar sut y cyflawnir y cynllun corfforaethol yn gyffredinol.

# Casgliad

Mae'r strategaeth hon yn dangos sut y byddwn yn defnyddio ein cryfder a'n gallu ariannol i gyflawni canlyniadau'r cynllun corfforaethol a'r egwyddorion ariannol arweiniol y byddwn yn eu harddel. Mae cynaliadwyedd ariannol hirdymor yn hanfodol i lwyddiant hirdymor y sefydliad, ac mae'r strategaeth yn dangos sut y bydd llywodraethu ariannol cryf wrth wraidd y ffordd rydyn ni'n gweithio er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau.

Trivallis.


Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

**03000 030 888**

**customerservices@trivallis.co.uk**

Tŷ Pennant
Stryd y Felin
Pontypridd
CF37 2SW


Mae croeso i chi alw heibio yn ystod ein horiau swyddfa:
Dydd Llun i ddydd Gwener: 9.00am – 3.00pm